TGAU Daearyddiaeth

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Bydd yn annog myfyrwyr i:

- astudio amrywiaeth o leoliadau ar amrywiaeth o raddfeydd ac i ddatblygu dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ofodol o'r lleol i raddfa hollfydol;
- sicrhau eu bod yn gwerthfawrogi perthnasedd y pwnc, i'w byd eu hunain ac i'r byd eang sy'n prysur newid o'u cwmpas;
- ddatblygu diddordeb personol pam fod daearyddiaeth yn bwysig;
- ddatblygu eu cyfrifoldebau fel dinasyddion byd ac i adnabod sut y gallant chwarae rhan mewn datblygiad gynaliadwy;
- fanteisio ar amrediad eang o gyfleon i ddysgu am y byd o'u cwmpas trwy waith maes;
- feithrin annibyniaeth gynyddol trwy'r broses ddysgu gan ddatblygu sgiliau daearyddol, technegau newydd a phrosesau ymchwiliol.

Sut fyddai'n dysgu?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ysgrifenedig, diagnastig, gwaith map a thasgau / ymweliadau gwaith maes. Bydd dwy wers yr wythnos a neilltuir y naill wers i unedau o waith penodol. Trefnir ymweliadau maes yn ychwanegol ac yn achlysurol i'r oriau amserlen hyn.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

- **Arholiadau** - Papur 1 – 40% - Y Craidd
  (Papur ysgrifenedig – 1 awr 45 munud).
  - Papur 2 – 35% - Yr Opsiynau
  (Papur ysgrifenedig – 1 awr 15 munud).
- **Gwaith Cwrs –** 25%
  Ymholiad wedi ei sylfaenu ar waith maes (10%) ac ymarferiad datrys problemau a dod i benderfyniad (15%).

Cofiwch!

- Bydd cyfleon eleni i ddisgyblion Daearyddiaeth a Thwristiaeth a Hamdden i brofi gwaith maes lleol a thramor.
- Mae Daearyddiaeth yn bwnc hanfodol i sawl maes cyfoes yn y byd.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mrs. Glenda Murray

Ysgol Eifionydd
Porthmadog